# Atodiad i’r crynodeb o'r ymatebion

## Gofynion ar gyfer darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru – materion rhifedd a llythrennedd

Roedd yr ymarfer ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 11 Mai a 3 Awst 2012, yn gofyn am farn am ddisodli’r Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006, a fyddai’n cyflwyno gofynion diwygiedig ar gyfer darparu cyrsiau HCA yng Nghymru.

Roedd y cynigion yn cynnwys diwygio gofyniad statudol i gynyddu'r isafswm amser y mae pob athro dan hyfforddiant ar bob rhaglen ôl-radd cynradd yn ei dreulio yn cael hyfforddiant mewn ysgol o 18 wythnos o leiaf i 24 wythnos, gan ddechrau gyda’r rhaglenni HCA a fydd yn cychwyn yn y flwyddyn academaidd 2013/14.

Cafodd y cynnig ei gynnwys fel Cwestiwn 6 yr ymgynghoriad ac mae’r ymatebion a gafwyd a’r canlyniad dilynol i’w cael ar dudalennau 13 – 15 y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn cyhoeddi’r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad, cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gyda chynnig i oedi cyn cyflwyno’r gofyniad diwygiedig o ran yr amser a dreulir ar hyfforddiant ymarferol mewn ysgolion fel rhan o raglenni ôl-radd cynradd HCA, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2014/15, a hynny yn ddibynnol ar ganlyniad yr Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru sy’n digwydd ar hyn o bryd.

Gellir gweld yr adroddiad yn cynnwys y penderfyniad i oedi cyn cyflwyno’r gofyniad hwn yn:

http://wales.gov.uk/publications/accessinfo/drnewhomepage/dr2012/octdec/addysg/la3783/?lang=cy